# Adroddiad Arholwyr Lefel 2

Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
Lefel 2
Ionawr 2026

© WJEC CBAC Ltd.2026



**Cyflwyniad**

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

**Cefnogaeth bellach**

| Mapio | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Arholi gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Arholi gyda ni \| CBAC |

**Cynnwys**


| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 5 |
| Uned 1 Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd | 6 |
| Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol | 9 |

**Crynodeb Gweithredol**

Yn y gyfres hon, gwelwyd cynnydd bach yn nifer yr ymgeiswyr oedd yn sefyll y papur Uned 1 ac, yn arwyddocaol, mwy o ymgeiswyr yn dewis sefyll y papur ar-lein. Mae hyn yn ddefnyddiol i'r ymgeiswyr hynny sy'n cael trafferth i wneud eu llawysgrifen yn ddarllenadwy.

Roedd y perfformiad yn cyfateb i gyfresi blaenorol i raddau helaeth gyda rhai cwestiynau'n hygyrch i'r mwyafrif o'r garfan.

Er ei bod yn braf gweld tuedd gan ymgeiswyr i roi cynnig ar y rhan fwyaf o gwestiynau, collwyd marciau am eu bod wedi camddarllen y cwestiwn a/neu am fod diffyg manylion yn yr ymatebion i gyrraedd marciau yn y band uwch.

Roedd hyn yn arbennig o amlwg yng nghwestiwn 5ch; roedd llawer o'r ymgeiswyr yn dangos ymwybyddiaeth o hunangysyniad ond nid oeddent yn gallu cymhwyso gwybodaeth a datblygu ymatebion i ddangos eu gwybodaeth am y gwasanaethau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi hunangysyniad. Byddai mwy o waith ar y rhan hon o'r fanyleb yn ddefnyddiol i baratoi ymgeiswyr yn y dyfodol.

Yn yr un modd, roedd yn bleser gweld bod gan lawer o ymgeiswyr wybodaeth dda am ddeddfwriaeth, er enghraifft yng nghwestiwn 8b, ond byddai mwy o waith ar gymhwyso gwybodaeth o fewn senario yn annog ymgeiswyr i ddatblygu eu hatebion yn y dyfodol a chyrraedd marciau yn y band uwch.

**Meysydd i'w gwella**

| **Meysydd i'w gwella** | **Adnoddau ystafell ddosbarth** | **Disgrifiad o'r adnodd** |
|---|---|---|
| Ymarfer cwestiynau arholiad | https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/<br>Gwefan Ddiogel CBAC | Cyn-bapurau ac arweiniad i'r arholiad |
| Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth | https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/ | Adolygu Arholiadau Ar-Lein<br>Adnoddau Dysgu |

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

### Lefel 2

### Ionawr 2026

### UNED 1 HYBU IECHYD A LLESIANT DRWY GYDOL CAMAU BYWYD

**Trosolwg o'r Uned**

Ar y cyfan roedd yr ymgeiswyr wedi paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad. Roedd y sgriptiau wedi'u cyflwyno'n glir, ac roedd y llawysgrifen yn dda a'r ymatebion yn ddarllenadwy gan amlaf. Roedd yn braf gweld mwy o ymgeiswyr yn cwblhau'r uned gan ddefnyddio'r opsiwn cofrestru digidol. Dangosodd ymgeiswyr hyder ar y cyfan yn cyflwyno eu hymatebion yn glir a phriodol wrth ddefnyddio'r fformat hwn.

Er bod rhywfaint o dystiolaeth o gamddarllen cwestiynau, dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth o'r geiriau gorchymyn a ddefnyddiwyd ar y cyfan. Fodd bynnag, collodd rhai ymgeiswyr farciau am nad oedd digon o fanylion ac oherwydd defnydd cyfyngedig o derminoleg pwnc briodol.

Anogir canolfannau i barhau i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr o'r mathau gwahanol o chwarae a'u rôl wrth gefnogi datblygiad cyfannol, yn cynnwys datblygiad cymdeithasol a gwybyddol. Mae hefyd yn bwysig bod dysgwyr yn hyderus wrth nodi a gwahaniaethu rhwng y meysydd datblygu gwahanol ac wrth ymateb yn benodol i ofynion pob cwestiwn.

Atgoffir canolfannau bod y ffactorau sy'n effeithio ar hunangysyniad wedi'u hamlinellu'n glir yn adran 1.3 y fanyleb. Roedd y maes hwn yn heriol i rai ymgeiswyr. Bydd defnyddio'r derminoleg a ddarperir yn y fanyleb wrth gyflwyno'r cynnwys hwn yn cefnogi dealltwriaeth dysgwyr ac yn eu helpu i ymateb yn fwy cywir i gwestiynau ar hunangysyniad.

Anogir canolfannau hefyd i gefnogi dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth am ddeddfwriaeth at yr unigolyn penodol a enwir yn y senarios, gan sicrhau bod eu hymatebion yn berthnasol, yn fanwl ac â chysylltiad clir.

**Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1** Roedd hwn yn gwestiwn syml oedd yn gofyn i ymgeiswyr nodi sgiliau datblygiadol. Llwyddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr i nodi'n gywir enghreifftiau o sgiliau echddygol bras a manwl. Roedd rhywfaint o ddryswch i'w weld mewn perthynas â'r mathau o chwarae sy'n cefnogi deall eraill a dysgu cysyniadau newydd.

**Cw.2** (a) (i,ii) Enillodd yr ymgeiswyr farciau da am y cwestiwn hwn, gyda'r mwyafrif yn gallu galw ffactorau bywyd priodol i gof.

(b) Dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o ddylanwadau diwylliannol a chrefyddol. Roedd yr ymatebion cryfach yn cynnwys trafodaeth glir ac yn ystyried yr effaith benodol ar y person ifanc, a oedd yn angenrheidiol i gyrraedd y band marciau uchaf.

**Cw.3** (a) Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr nodi bod Remi yn byw mewn teulu cnewyllol. Ni lwyddodd llawer o ymgeiswyr i enwi'r strwythur teuluol hwn yn gywir. (cyfeirnod y fanyleb 1.2)

(b) Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr yn gallu rhoi enghreifftiau perthnasol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs). Lle collwyd marciau, roedd hyn yn aml am eu bod wedi ailadrodd yr un enghraifft yn hytrach na rhoi dau ymateb annhebyg.

(c) Er mwyn ennill marciau yn y band marciau uchaf, roedd gofyn i ymgeiswyr esbonio effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) ar iechyd a llesiant plentyn ar y pryd ac yn y dyfodol. Roedd ymatebion cryfach yn rhoi esboniadau datblygedig a chlir, a oedd yn ystyried effeithiau ar unwaith ac yn y tymor hir.

**Cw.4** (a) Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu ennill y marciau drwy amlinellu cerrig milltir datblygiadol fel y sgiliau corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol y mae'r rhan fwyaf o blant yn eu meistroli erbyn oedran penodol.

(b) I ennill marciau yn y band marciau uchaf, roedd gofyn i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o bwrpas tracio cerrig milltir datblygiadol drwy ddefnyddio siartiau canraddol a'r Cofnod o Sgiliau Tyfu. Roedd yr ymatebion cryfach yn esbonio sut mae'r dulliau hyn yn cael eu defnyddio i fonitro datblygiad ac i ganfod unrhyw oedi neu bryderon posibl a allai ddangos bod angen cefnogaeth ychwanegol neu ymyrraeth gynnar.

(c) Roedd angen i'r therapïau arbenigol fod yn benodol i gefnogi plentyn nad oedd yn cyrraedd cerrig milltir datblygiadol. Rhoddwyd credyd lle nododd ymgeiswyr weithiwr proffesiynol arbenigol priodol yn hytrach na'r therapi. Fodd bynnag, ni roddwyd credyd am rolau swyddi amwys neu gyffredinol fel nyrs neu feddyg. Roedd angen enwi rolau penodol, er enghraifft therapydd iaith a lleferydd neu therapydd galwedigaethol.

**Cw.5** (a) Dim ond am ymatebion a oedd yn nodi'n gywir bod oedolaeth ddiweddarach yn golygu 65 oed a throsodd y rhoddwyd credyd.

(b) Yn y cwestiwn hwn, roedd gofyn i ymgeiswyr ganolbwyntio ar agweddau corfforol ar ddatblygiad yn ystod oedolaeth ddiweddarach yn unig. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr wedi cynnwys agweddau deallusol, emosiynol a chymdeithasol, nad oedd yn derbyn credyd. Yn ogystal, roedd rhai ymatebion yn amwys neu'n ailadroddus, gan gyfeirio'n gyffredinol at newidiadau i'r croen heb ddatblygiad pellach nac eglurhad, er enghraifft.

(c) Roedd gofyn i'r ymgeiswyr enwi'r ffactorau sy'n effeithio ar hunangysyniad. Mae'r rhain wedi'u rhestru'n glir ac yn ddiamwys yn adran 1.3 y fanyleb.

(ch) Roedd tystiolaeth o rai ymgeiswyr yn camddarllen y cwestiwn hwn. Er bod llawer o'r ymatebion yn nodi ffactorau a allai effeithio ar hunangysyniad, roedd marciau'n cael eu rhoi am esbonio sut byddai'r ffactorau hyn yn gallu cael eu cefnogi. Roedd yr ymatebion a oedd yn haeddu ennill marciau yn cynnwys enghreifftiau fel sicrhau bod gofalwyr wedi cael gwiriad priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dilyn gweithdrefnau diogelu, a darparu amgylchedd diogel gyda chymhorthion symudedd addas ar gael. Anogir canolfannau i atgoffa dysgwyr o bwysigrwydd darllen cwestiynau'n ofalus a chanolbwyntio ar ofynion penodol y geiriau gorchymyn.

**Cw.6** (a) Ar y cyfan, roedd ymgeiswyr yn gallu esbonio rôl Llywodraeth Cymru o ran gwella iechyd a llesiant unigolion. Rhoddwyd marciau sylfaenol am ymatebion syml, fel nodi ymgyrchoedd hybu iechyd. Roedd yr ymatebion yn y band marciau uwch yn dangos dealltwriaeth fanylach, gan gyfeirio at fentrau a enwir a deddfwriaeth berthnasol, ac esbonio'n gliriach sut mae'r rhain yn gwella iechyd a llesiant.

© WJEC CBAC Ltd.2026

**Cw.7** (a)(i,ii) Ar y cyfan, roedd ymgeiswyr yn gallu amlinellu effeithiau amhariad ar y golwg. I ennill marciau llawn, roedd gofyn i ymgeiswyr amlinellu'r effaith ar yr unigolyn, er enghraifft sut byddai'r amhariad ar y golwg yn gallu effeithio ar ei annibyniaeth, ei symudedd, ei ddiogelwch a'i allu i wneud gweithgareddau bob dydd.

(b) Cafwyd amrywiaeth ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu ennill y marciau oedd ar gael.

(c) Er bod ymgeiswyr, ar y cyfan, yn dangos gwybodaeth am wydnwch a hunangysyniad cadarnhaol, roedd rhai o'r ymatebion yn rhy fyr ac nid oedd digon o fanylion ar draws pob maes datblygu. Roedd yr ymatebion cryfach yn defnyddio'r fframwaith PIES (Corfforol, Deallusol, Emosiynol, a Chymdeithasol) i roi esboniad mwy cynhwysfawr ac felly roeddent yn gallu ennill marciau uwch.

**Cw.8** (a) Roedd ymgeiswyr yn gallu esbonio sut byddai bod yn brif ofalwr yn gallu effeithio ar gyfleoedd cyflogaeth Mandy. Roedd yn briodol bod ymgeiswyr yn cydnabod y gallai Mandy wynebu heriau o ran cael neu gadw swydd, ac roedd modd ennill marciau llawn am esbonio effeithiau negyddol yn unig. Roedd yn braf gweld rhai ymgeiswyr yn cydnabod y gall Mandy ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy o ganlyniad i'w rôl ofalu, megis empathi, gwydnwch, a sgiliau gofalu cryf, a allai fod yn werthfawr i gyflogwr hefyd.

(b) Er bod rhai ymgeiswyr wedi dangos ymwybyddiaeth o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn aml, nid oedd yr ymatebion yn cynnwys digon o ddyfnder ac nid oeddent bob amser yn canolbwyntio'n glir ar sut mae'r Ddeddf yn cefnogi Mandy a'i merch yn benodol. Roedd yr ymatebion cryfach yn cymhwyso gwybodaeth am y ddeddfwriaeth yn uniongyrchol at y senario, er enghraifft drwy esbonio sut mae'r Ddeddf yn sicrhau mynediad at wasanaethau cefnogaeth, yn diogelu llesiant, ac yn hyrwyddo hawliau Mandy a'i merch. Rhoddwyd marciau yn y band uchaf am ymatebion a ddefnyddiodd derminoleg pwnc gywir i esbonio hawl Mandy i asesiad o anghenion gofalwr a'r gefnogaeth sydd ar gael o ganlyniad.

(c) I gyrraedd marciau yn y band uwch, roedd gofyn i ymgeiswyr ddarparu trafodaeth gytbwys a oedd yn ystyried yn glir yr effaith ar Mandy a'i merch, gan gymhwyso pwyntiau perthnasol a datblygedig at y ddau unigolyn.

© WJEC CBAC Ltd.2026

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 02920 265139
E-bost: igceach@cbac.co.uk
Tudalen we'r cymhwyster: Cymwysterau Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Asesu am y Tro Cyntaf 2024)

Gweler fanylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.2026

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.2026